

Gair gan Y Maer

Dymunodd y Maer cyfarchion blwyddyn newydd dda i bawb yn y dref ac i'r Cynghorwyr, Clerc a'u teuluoedd. Dywedodd y bydd y flwyddyn 2020 yn sicr yn flwyddyn o newidiadau yn bersonol iddo ef ac eraill. Danfonodd cofion cynnes at y Cynghorydd Evan John Hughes a'i ferch sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac arferiad iechyd hefyd i'r Cynghorydd Ioan Gruffydd.

Y Tad Huw

Yn ddiweddar cyhoeddodd Esgob Bangor y bydd Y Tad Huw Bryant yn ymadael a'i swydd yn eglwys St Pedr Pwllheli ac yn cymryd swydd newydd yn Llanelwy ar 1af Mawrth. Diolchodd y Maer Y Tad Huw am ei arweiniad yn y dref a'i gefnogaeth i amryw o ddigwyddiadau pwysig. Dymunodd y Maer yn dda iddo yn ei rôl newydd.

Ymled â Ysbyty Bryn Beryl a Phlas y Don

Un o'r dyletswyddau mwyaf pleserus Maer y dref, yw cael ymweld gyda chleifion, preswylwyr a staff Bryn Beryl a Phlas y Don ar fore Nadolig. Dywedodd Y Maer ei fod bob amser yn braf cael cwrdd â phawb a chael sgwrs a dymuno'r gorau. Dywedodd bod y gwasanaethau hyn yn hanfodol yn ein cymuned a diolch i bawb sy'n gweithio ynddynt i ddarparu'r gwasanaeth. Diolchodd hefyd i bawb arall sy'n diogelu iechyd a lles ein trigolion trwy'r flwyddyn.

Profedigaeth

Bu farw'r arlunydd amryddawn Gwilym Roberts (Gwilym Lôn Berch) ar 11 Rhagfyr. Roedd ei ddiddordeb yn hanes a phobl y dref yn ysbrydoliaeth i lawer un. Yn 1998 fe oedd arlunydd cerdyn Nadolig y Maer (tymor cyntaf y Maer presennol) o Stryd Llygod yn null celf inc pin. Bydd colled ar ei ôl, ond bydd ei waith yn parhau i adrodd hanes yr hen dref. cydymdeimladau gyda'r teulu.

Bu farw'r newyddiadurwr, awdur, golygydd a chyfaill (lo Mo) Mr. Ioan Roberts dros gyfnod yn Nadolig. Cydymdeimladau gyda'i wraig Alwenna a'r plant yn eu profedigaeth.

Cydymdeimladau hefyd gyda phawb o'r dref sydd wedi cael profedigaethau yn ddiweddar hefyd.

Cyfarfod gyda'r Heddlu

Bu i'r Maer a'r Clerc gyfarfod gyda chynrychiolwyr o gynghorau eraill gyda'r heddlu ym Mhorthmadog cyn y Nadolig. Bydd rhagor am ymgyrch cydweithio yn y misoedd nesaf.

Meinciau

Diolchodd Y Maer i'r Dirprwy Faer Cynghorydd Mici Plwm a'r Cynghorydd Michael Sol Owen am adnewyddu meinciau yn y dref.

Golau Nadolig

Dywedodd Y Maer ei fod yn siomedig iawn nad oedd yn bosib gosod y goleuadau Nadolig newydd ar y coed ger Costa, er yr addewid gan eraill. Hyderodd y byddant yn eu lle ac yn disgleirio'n llachar erbyn Nadolig 2020.



Eric Wyn Roberts

Maer y Dref, 9fed Ionawr, 2020.